LITTLE BIG FUTURES



TAFLEN WAITH MYFYRWYR 2

# Gweithdrefn


## Offer

- Dau floc pren
- Seinydd
- Batris
- Gwifrau i gysylltu'r gylched
- Ffoil alwminiwm er mwyn creu pedwar stribed 8cm x 1cm
- Labeli papur hunanludiog er mwyn gwneud pedair
- stribed 6cm x 1cm  Siswrn
- Tâp gludiog
- Cannwyll fach
- Gefelau
- Mat Gwrth-wres

## Gosod y gylched

Mae'n rhaid i chi wisgo cot labordy a gogyls ac mae'n rhaid i chi osod eich cylched ar fat gwrth-wres.

1. Gwnewch dair neu bedair stribed deuddeunydd drwy ludo label hunanludiog 6cm x 1cm yn sownd i stribed o ffoil alwminiwm 8cm x 1 cm gan adael 1cm o ffoil heb ei orchuddio ar y naill ben a'r llall i'r stribed.
2. Tapiwch un pen o'r stribed, gyda'r papur ar yr ochr uchaf, i floc coed fel bod yr alwminiwm yn cyffwrdd pen y wifren. Sicrhewch bod y rhan fwyaf o'r stribed yn hongian dros y bloc fel y dangosir hynny yn y diagram.
3. Tapiwch ddarn arall o wifren, y cysylltiad, i ail floc pren fel bod y pen sydd heb ei inswleiddio yn hongian drosodd tua 1cm. Gosodwch y cysylltiad fel ei fod yn gwpl o centimetrau uwch ben yr alwminiwm ar ben y stribed deuddeunydd sy'n hongian drosodd, fel y dangosir hynny yn y diagram.
4. Cysylltwch y seinydd a'r batri, mewn cyfres, rhwng dau ben arall y ddau ddarn o wifren.


Alwminiwm
papur
cysylltiad
seinydd

## Arsylwadau ar arbrawf stribed deuddeunydd

Mae'n rhaid gwisgo cot labordy a gogyls.

Taniwch y gannwyll fach, a gan ddefnyddio gefelau, llithrwch hi o dan y stribed deuddeunydd am eiliad neu ddau ac yna ei thynnu allan cyn i'r papur ddechrau llosgi. Os bydd hynny yn digwydd, gosodwch stribed deuddeunydd newydd a chymryd mwy o ofal y tro nesaf.

### Cofnodwch ac eglurwch eich arsylwadau.

Gall y stribed deuddeunydd fod yn ddyfais sensitif iawn. Os bydd yn rhy sensitif gall seinio'r larwm dim ond oherwydd ei fod yn ddiwrnod poeth.

Gall fod yn ddyfais sensitif iawn all ymateb i newidiadau bychan mewn tymheredd. Mae'n gymharol hawdd i'w haddasu. Ceisiwch ei haddasu i'w gwneud yn fwy ac yn llai sensitif.

### C. Beth a wnaethoch i'w gwneud yn llai sensitif?

### C. Beth a wnaethoch i'w gwneud yn fwy sensitif?

### Gwerthuswch y stribed deuddeunydd fel synhwyrydd tân (beth yw ei manteision ac anfanteision)?

**Manteision:**

**Anfanteision:**

### C. Sut allai dyfais o'r fath gael ei hymgorffori yn yr IoT er mwyn cynhyrchu ymateb cyflymach i dân?